

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y cyfarfod 15 Chwefror 2022

Aelod Arweiniol / Swyddog Y Cyngorydd Bobby Feeley / Catrin Roberts (Tîm Cydweithio Rhanbarthol)

Awdur yr Adroddiad Catrin Perry / Siobhan Gothorp (Tîm Cydweithio Rhanbarthol)

Teitl Gwahoddiad i Dendro'r Gwasanaeth Cymorth Asesu Cof Rhanbarthol – Dyfarnu Contractau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu tri chontract yn dilyn cwblhau Gwahoddiad i Dendro ar gyfer 'Gwasanaeth Cymorth Asesu Cof Rhanbarthol'.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Mae gan y tri chontract gyda'i gilydd gyfanswm posibl o hyd at £3.36 miliwn (h.y. £672,000 / y flwyddyn dros gyfnod posibl o 5 mlynedd).
- 2.2. Mae angen penderfyniad o ran y Cyngor yn derbyn tri thendr a gwrthod un tendr a gyflwynwyd ar gyfer 'Gwasanaeth Cymorth Asesu Cof Rhanbarthol'.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo tendrau 3 o gyflenwyr ac yn gwrthod tendr 1 cyflenwr am y rhesymau y manylir arnynt o fewn yr Adroddiad Argymhellion Dyfarnu Contract' (Atodiad 1).
- 3.2. Bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr 'Asesiad o'r Effaith ar Les' (Atodiad 2) a'r 'Ffurflen Gomisiynu' (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Rhoddodd y Cabinet ei gymeradwyaeth i'r Cyngor weithredu fel Prif Gomisiynydd ar gyfer Gwahoddiad i Dendro 'Gwasanaeth Cymorth Asesu Cof Rhanbarthol' yn y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2021, gan weithredu ar ran chwe phartner Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) fel rhan o Gydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru.
- 4.2. Cyflwynodd y Cyngor Wahoddiad i Dendro ar gyfer 'Gwasanaeth Cymorth Asesu Cof Rhanbarthol' ar 2 Rhagfyr 2021. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendr oedd 13 Ionawr 2022.
- 4.3. Cyflwynodd tri ymgeisydd dendrau ar gyfer y 3 cyfran a gynigiwyd fel rhan o'r Gwahoddiad i Dendro. Cyflwynodd un ymgeisydd dendrau ar gyfer 2 gyfran a gynigiwyd, gyda'r ymgeiswyr eraill yn cyflwyno tendrau ar gyfer 1 cyfran yr un.
- 4.4. Derbyniwyd tendrau ar gyfer pob cyfran a gynigiwyd. Felly, roedd y Cyfran i Dendro wedi llwyddo i ddenu tendrau ar gyfer pob Cyfran a gynigiwyd.
- 4.5. Cafodd y tendrau eu cyflwyno yn erbyn methodoleg gwerthuso rhagnodedig a gyflwynwyd gyda'r Gwahoddiad i Dendro.
- 4.6. Mae'r Adroddiad Argymhelliad Dyfarnu, yn Atodiad 1, yn nodi gwerthusiad bob tendr ac yn gwneud argymhellion o ran dyfarnu contract yn erbyn bob Cyfran.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Bydd dyfarnu'r tri contract yn galluogi'r chwe phartner Awdurdod Lleol a BIPBC i ymgysylltu â thri sefydliad allanol i sefydlu 'Gwasanaeth Cymorth Asesu Cof Rhanbarthol' ar draws y rhanbarth.
- 5.2. Bydd sefydlu 'Gwasanaeth Cymorth Asesu Cof Rhanbarthol' ar draws y rhanbarth yn cefnogi'r partneriaid i ddiwallu amcanion allweddol 'Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018 – 2022' Llywodraeth Cymru sy'n ceisio sefydlu cenedl sy'n deall dementia drwy wybodaeth, dealltwriaeth a chefnogaeth o amgylch dementia.

- 5.3. Mae sefydlu dull Siop Un Alwad / Cynhwysol sy'n galluogi unigolion i gael mynediad at wybodaeth, cyngor, canllawiau a chefnogaeth mewn perthynas â phryderon colli cof, ac i'r rhai sydd wedi derbyn diagnosis dementia i gael mynediad ar lwybr cymorth cynhwysol, yn flaenoriaeth ar gyfer 'Strategaeth Dementia Gogledd Cymru (Mawrth 2020)' a 'Chynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru (Cynllun Ardal)'. Bydd sefydlu 'Gwasanaeth Cymorth Asesu Cof Rhanbarthol' yn galluogi unigolion i gael mynediad i'r gwasanaethau maent eu hangen mewn modd amserol a chyson ar draws Gogledd Cymru.
- 5.4. Mae 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014' yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â phobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia.
- 5.5. Mae 'Strategaeth Dementia Gogledd Cymru (Mawrth 2020)' yn nodi sut y byddwn yn gweithio tuag at wasanaethau dementia integredig yng Ngogledd Cymru. Fe'i datblygwyd ar y cyd gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a BIPBC gyda chefnogaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Bangor a phartneriaid eraill.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Yn unol â chanllawiau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Tîm Prosiect wedi dyrannu'r cyllidebau canlynol ar gyfer pob agwedd o'r gwasanaeth:

Cyfran 1: Darparu cefnogaeth cyn-asesu ac ôl-ddiagnosis rhanbarthol (h.y. Gwybodaeth, cyngor, canllawiau a chymorth drwy Lwybr Asesu Cof): £360,000 y flwyddyn;

Cyfran 2: Dynodwyr Rhanbarthol (h.y. Dynodi a chefnogi'r rheiny sy'n derbyn diagnosis mewn lleoliadau iechyd eraill): £112,000 y flwyddyn;

Cyfran 3: Darparu Canolfannau Dementia Rhanbarthol (h.y. pwyntiau mynediad corfforol at wasanaethau a gwybodaeth, cyngor a chanllawiau o fewn y gymuned): £200,000 y flwyddyn.

- 6.2. Mae'r cyllid ar gyfer y gwasanaethau yn gyllid newydd a chylchol sydd wedi cael ei ddyfarnu i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru gan Lywodraeth

Cymru ar gyfer y diben o ddatblygu dull rhanbarthol gwell i gefnogi unigolion sydd â materion / pryderon cof neu ddementia yn ystod camau cyn-asesu ac ar ôl cael diagnosis.

- 6.3. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i'r Cyngor na'r Partneriaid am reoli'r 3 contract. Bydd aelodau presennol o staff o'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol yn darparu rheolaeth prosiect a chymorth rheoli contract wrth symud ymlaen.
- 6.4. Bydd y goblygiadau i wasanaethau eraill yn cynnwys y bydd 'Gwasanaeth Cymorth Asesu Cof Rhanbarthol' yn gwella a chynyddu'r ddarpariaeth bresennol ar draws Gogledd Cymru drwy ddarparu un llwybr i bartneriaid a gwasanaethau eraill ei ddilyn ar draws y rhanbarth a chreu mynediad teg at wasanaethau i bobl â phroblemau yn ymwneud â'r cof, Dementia a'u teulu / gofalwyr.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Cwblhawyd ac adolygwyd yr Asesiad o Effaith ar Les gan y Tîm Cydweithio Rhanbarthol yn ystod camau cynllunio cychwynnol a pharhaus.
- 7.2. Bydd y llwybr yn darparu gwasanaethau rhanbarthol effeithlon, effeithiol a theg ar gyfer pobl sydd â dementia a'u gofalwyr.
- 7.3. Bydd y llwybr yn gwaredu'r dyblygiad a nodwyd ac yn galluogi defnydd effeithiol o gyllid a darpariaeth gwasanaeth.
- 7.4. Bydd y llwybr yn sicrhau bod unigolion yn derbyn cefnogaeth cyn ac ar ôl cael diagnosis ar draws y rhanbarth.
- 7.5. Bydd y llwybr yn cynnig darpariaeth gwasanaeth ychwanegol o ran cefnogaeth cyn diagnosis i gefnogi gwelliannau a chanlyniadau iechyd.
- 7.6. Bydd y llwybr yn darparu prosesau cydweithio a gweithio integredig dan gontract rhwng darparwyr.
- 7.7. Bydd y llwybr yn cefnogi nodweddion a ddiogelir ac yn darparu cefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a / neu iaith ddewisol.
- 7.8. Mae'r cyllid yn rheolaidd ac yn cael ei reoli'n rhanbarthol, i sicrhau cynaliadwyedd y prosiect.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Ymgynghorwyd ag aelodau o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru pan gafodd y cais ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu dull rhanbarthol gwell ar gyfer cefnogi unigolion sy'n pryderu am golli'r cof yn ystod y camau cyn-asesu ac ôl-ddiagnosis. Mae Grŵp Arweinyddiaeth a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cymeradwyo a chanmol y cais. Bydd y Tîm Prosiect yn adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- 8.2. Bydd Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru'n llywodraethu ac yn craffu ar y prosiect.
- 8.3. Bydd y Tîm Prosiect yn darparu adroddiadau chwarterol i'r Grŵp Arweinyddiaeth.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Mae'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol wedi cadarnhau bod y cyllid allanol ar gyfer costau'r gweithgarwch rhanbarthol hwn wedi cael ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru. Mae gan Gyngor Sir Ddinbych enw da am reoli prosiect cydweithio rhanbarthol a fydd yn helpu i sicrhau bod y drefn briodol yn cael ei dilyn. Cefnogir yr argymhellion.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Bod ymarfer y Gwahoddiad i Dendro'n cael ei arwain gan dîm caffael Cyngor Sir Ddinbych er mwyn sicrhau bod y drefn briodol yn cael ei dilyn sy'n addas ar gyfer gwerth posibl y contract. Mae hyn yn lleihau'r perygl o heriau.
- 10.2. Rhennir y perygl o her gyfreithiol ymhlith y Partneriaid Cydweithio Rhanbarthol yn unol â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – Cytundeb Cydweithio Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru 2019 – 2024.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

- 11.1. Mae'r Rheol Gweithdrefn Contract 2.7.2 iii yn ei gwneud yn ofynnol i gaffaeliad sy'n werth dros £2,000,000.01 gael ei gymeradwyo gan y Cabinet.